

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWDYD AR 12 MAWRTH 2020

TŶ PAWB, WRECSAM

Rhif Age nda	Nodiadau	Camau Gweithr edu
	<p>YN BRESENNOL: Roger Lewis (yn y Gadair); Hywel John (Trysorydd); Carys Howell; Catherine Duigan; Glenda Jones; Gwyneth Hayward; Madeleine Havard; Michael Prior; Rachel Hughes; Rob Humphreys; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>ERAILL YN Y CYFARFOD: Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu; Catrin Taylor, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu; Nicky Guy, Dirprwy Gyfarwyddwr MAALD.</p>	
	<p>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau. 	
	<p>Yn Sesiwn Gaeëdig y cyfarfod trafododd y Bwrdd: <i>Amgueddfa Cymru 2030</i>; Yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol; yr Amgueddfa Chwaraeon; y cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog; Amgueddfa Lechi Cymru; recriwtio Ymddiriedolwyr; yr adolygiad Llywodraethu o Bwyllgorau Sefydlog.</p> <p>Ar y pwynt hwn, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>GAIR O GROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawodd Roger Lewis bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell (Is-Lywydd), Hywel Ceri Jones, Kay Andrews, Maria Battle, a Robert Pickard.</p> <p>Y Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr oedd Cyfarwyddwr arweiniol yr Amgueddfa mewn perthynas ag ymateb y sefydliad i bandemig y Coronafeirws (Covid-19). Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y camau a gymerwyd, gan gynnwys sefydlu tîm project i reoli ymateb a gweithgaredd cyfathrebu'r Amgueddfa. Cyflwynwyd papur yn nodi ymateb yr Amgueddfa i gyfres o gwestiynau a ofynnwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddodd Nicky Guy y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd, a nododd ei bod wedi gofyn am eglurder ynglŷn â pha gymorth busnes y gallai'r Amgueddfa ei gael, yn ychwanegol at y Cymorth Grant.</p> <p>Cafodd y cofnodion hyn eu hysgrifennu yn y drefn a nodir ar yr agenda, nid yn y drefn y cawsant eu trafod yn y cyfarfod sef: 4.4, 5.1, 7.1, 10.1, 9.3, a'r gweddill yn y drefn fel yr oeddent yn ymddangos ar yr agenda. Diben hyn oedd galluogi staff allweddol i adael y cyfarfod i ymdrin â materion brys yn ymwneud â Choronafeirws.</p>	
2	<p>COFNODION</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Cafodd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019 eu cymeradwyo, yn amodol ar y cywiriadau canlynol: nodi gwerthfawrogiad y Bwrdd o Geidwad Adran y Gwyddorau Naturiol ar ei ymddeoliad o'r Amgueddfa. Statws presenoldeb Cynrychiolaeth yr Undebau yn y cyfarfod i nodi eu bod yn Arsylwi, a</p>	

	nodi bod Cadeirydd y Cyfeillion a Chadeirydd y Bwrdd Datblygu yn Bresennol. Newid y geiriad yn 2.3 o 'Merched ym maes STEM' i 'Menywod ym maes STEM'.	
3	MATERION YN CODI Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent yn cael eu trafod ar yr agenda.	
4	<p>ADOLYGU GWEITHGARWCH</p> <p>1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Bwrdd y byddai'r digwyddiadau yn y dyfodol a restrir yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu fel bo angen.</p> <p>2. ADRODDIAD AR BERFFORMIAD CYNLLUN GWEITHREDOL CHWARTER 3</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd trwy'r adroddiad.</p> <p>2.3. Diolchodd y Bwrdd i'r staff am y perfformiad rhagorol yn ystod y chwarter.</p> <p>2.4. <u>Penderfynwyd</u>: Cymeradwywyd yr adroddiad.</p> <p>3. DANGOSFWRDD</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Diolchwyd i'r Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus am ei gwaith ar yr adroddiad.</p> <p>3.3. Nododd y Bwrdd mai'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad sy'n ymdrin ag adrodd ar salwch.</p> <p>3.4. Diolchodd Glenda Jones, sy'n ymddeol o'i swydd fel Ymddiriedolwr, i Claire Thomas-Hanna, Pennaeth Adnoddau Dynol am ei gwaith mewn perthynas â'r rhaglen Buddsoddwyr mewn Pobl, a'i gwaith â'r Undebau.</p> <p>3.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn bwydo unrhyw sylwadau sydd ganddynt am y Dangosfwrdd yn ôl i'r Llywydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>4. CYNLLUN GWEITHREDOL 2020/21</p> <p>4.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>4.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol wedi nodi bod y ddogfen wedi'i diweddarau ers cyfarfod y Pwyllgor Adolygu Perfformiad ym mis Chwefror.</p> <p>4.3. Nododd y Bwrdd fod y cynllun yn dilyn y fformat presennol ac y byddai meysydd gweithgarwch megis cynllun gweithredu'r Amgueddfa mewn ymateb i'w datganiad o argyfwng hinsawdd, a'r modd y gallai barhau i ymgysylltu â digwyddiadau cenedlaethol yng Nghymru a chymryd rhan ynddynt, megis y Sioe Frenhinol, yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am y strategaeth newydd 2030.</p> <p>4.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y Cynllun, a phe bai Ymddiriedolwyr yn dymuno anfon sylwadau penodol yna dylid cyfeirio'r rhain at y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Cyllid.</p>	Ymddiri edolwyr
5	<p>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Cafwyd perfformiad da hyd yma, gyda gwaith rheoli ariannol cadarn ar draws pob maes. Nododd y Bwrdd fod targedau naill ai wedi'u cyflawni neu y rhagorwyd arnynt.</p> <p>3. Nododd y Trysorydd fod yr adroddiad yn dangos y lefel uchel o hyder y gallai'r Bwrdd ei gymryd o ran rheolaeth ariannol yr Amgueddfa. Fodd bynnag, nid</p>	Ymddiri edolwyr

	<p>oedd y sefyllfa ariannol yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Nododd y Llywydd ei fod ef a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi gwneud y pwynt hwn yn eu cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog. Byddai'n codi'r pwynt hwn â Phrif Weinidog Cymru yn eu cyfarfod ar 22 Ebrill 2020.</p> <p>4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.</p>	
6	<p>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WEITHGARWCH CYFFREDINOL</p> <p>1. DIGWYDDIAD DATBLYGU STAFF</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi nodi'r adborth cadarnhaol iawn yn yr arolwg, a bod y staff yn awyddus i'r digwyddiad hwn gael ei gynnal yn flynyddol a byddai hyn yn cael ei ystyried ynghyd ag adnoddau a gallu.</p>	
7	<p>LLYWODRAETHU</p> <p>1. DOGFEN FFRAMWAITH LLYWODRAETH CYMRU</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Darparodd yr adroddiad Ddogfen Fframwaith ddiwygiedig enghreifftiol ddrafft Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd. Dogfen ar ffurf templed enghreifftiol cyffredinol oedd hon a byddai angen ei haddasu ar gyfer pob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Nod Llywodraeth Cymru oedd parhau i gael dogfen safonol i raddau helaeth ar draws yr holl gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, a sicrhau bod y cytundeb yn llai manwl. Cynigiodd y Cyfarwyddwr bod hyn yn gam cadarnhaol a chlir ymlaen. Roedd y ddogfen bresennol yn parhau.</p> <p>1.3. Nododd Nicky Guy efallai y bydd angen cyflwyno rhai o'r trefniadau Galw i Mewn sydd yn y ddogfen gyfredol i'r fersiwn ddiwygiedig.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.</p>	
8	<p>RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR</p> <p>1. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RECRIWTIO</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Llywydd mai 6 Mawrth 2020 oedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am y ddwy swydd wag. Cafwyd 16 cais cymwys. Roedd y cyfarfod sifftio wedi'i drefnu ar gyfer 22 Ebrill 2020, gyda chyfweliadau ar 11 Mai 2020. Aelodau'r Panel oedd y Llywydd (yn y Gadair), Phil George, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru (aelod annibynnol), Catrin Hughes, Pennaeth Nawdd (cynrychiolydd Llywodraeth Cymru). Byddai'r swyddi'n weithredol o 1 Mehefin 2020.</p>	
9	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. STRATEGAETH INTERIM CYFATHREBU, MARCHNATA AC EIRIOLAETH</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Diolchodd y Bwrdd i'r Amgueddfa am y cyfathrebu cadarnhaol iawn a gafwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, a bod y staff cyfrifol i'w llongyfarch. Roedd aelodau newydd y tîm Marchnata a Chyfathrebu yn cael effaith gadarnhaol iawn, yn enwedig mewn perthynas ag adrodd storïau.</p> <p>2. ASTUDIAETHAU DICHONOLDEB – AMGUEDDFA CHWARAEON CYMRU; ORIEL CELF GYFOES GENEDLAETHOL</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Mewn perthynas â'r Amgueddfa Bêl-droed, adroddodd Nicky Guy fod Grŵp Llywio wedi'i sefydlu sy'n cael ei gadeirio gan Ian Bancroft, Prif Weithredwr Cyngor Wrecsam. Dyfarnwyd £450,000 ar gyfer cam datblygu'r astudiaeth. Mae'r paramedrau wrthi'n cael eu cytuno ac roedd rôl Amgueddfa Cymru i'w chadarnhau. Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto o ran teitl y project.</p>	

10	<p>2.2. O ran yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol, adroddodd Nicky Guy bod y Cylch Gorchwyl wedi'i gadarnhau ar gyfer y grŵp llywio. Mae astudiaeth dichonoldeb ail gam ar y gweill i nodi safleoedd posibl a fyddai'n rhan o'r model ar wasgar. O ran Amgueddfa Cymru yn benodol, dyfarnwyd £1.1m dros dair blwyddyn ariannol i gynnal project i ddigideiddio'r casgliadau, ac i uwchraddio cyfleusterau storio. Adroddodd Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yr Amgueddfa fod y project yn agosáu at bwynt hanfodol o ran y lleoliadau a phroject digideiddio'r Amgueddfa.</p> <p>3. GWYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUN GWEITHREDU DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU)</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil a Phennaeth Botaneg.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Rhoddodd y Pennaeth Botaneg y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd o ran y Cynllun Gweithredu. Adroddodd ar yr ystod eang o weithgarwch y mae'r Amgueddfa'n ei wneud i sicrhau ei bod yn gweithredu mewn modd cyfrifol, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac er budd ymwelwyr, staff, rhanddeiliaid, casgliadau a stad yr Amgueddfa.</p> <p>3.3. Nododd y Bwrdd y meysydd gweithgarwch a oedd yn arbennig o drawiadol o ran eu gallu i adrodd stori, megis y ffocws ar archwiliadau bioamrywiaeth a chynefinoedd ledled ystâd yr Amgueddfa.</p> <p>3.4. Roedd y Bwrdd yn awyddus i weld cynllun gweithredu uchelgeisiol a oedd yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd cyfleoedd i'r Amgueddfa siarad ag ystod o adrannau Llywodraeth Cymru ynglŷn â bioamrywiaeth a'r argyfwng hinsawdd.</p> <p>3.5. Nododd y Bwrdd fod yr Amgueddfa o'r farn bod ei rôl yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth statudol. Roedd y Bwrdd a'r staff wedi ymrwymo i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau o ran yr hinsawdd a bioamrywiaeth a byddent yn gweithio â Llywodraeth Cymru i nodi ffyrdd y gallai'r sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru gael cyllid sy'n cyfateb i'r hyn a gyhoeddwyd yng nghyllideb y Canghellor y diwrnod blaenorol ar gyfer amgueddfeydd yn Lloegr.</p> <p>3.6. Cynigiodd Nicky Guy y dylai'r Amgueddfa gyflwyno cais i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru a allai gefnogi'r gwaith mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol.</p> <p>3.7. Nododd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil fod hyn yn gyfle gwych i'r Amgueddfa ystyried y cyfleoedd o ran adrodd stori mewn perthynas â gweithgarwch y sefydliad, ar draws pob safle, a safleoedd ein partneriaid. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y dylai'r Amgueddfa adrodd stori at bwrpas – sicrhau newid ar gyfer Cymru, ac y dylai'r Amgueddfa fynd ymhellach na'r Ddeddf, gan gynnwys ac ymgysylltu â phobl ifanc a fforymau, grwpiau a sefydliadau cymunedol. Roedd y gwaith hwn yn ganolog i ddyfodol Amgueddfa Cymru a dyfodol Cymru.</p> <p>3.8. Nododd yr Amgueddfa y darparwyd hyfforddiant Llywodraethu Cymdeithasol Amgylcheddol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Amgueddfa, a bod y materion a godwyd yn y fan honno yn berthnasol i'r dadleuon yn y fan hon.</p> <p>3.9. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai'r adroddiad nesaf i'r Bwrdd yn adroddiad deinamig ac uchelgeisiol ar weithgarwch.</p>	KD / CC
	1. PROJECTAU SYLWEDDOL	

	<p>1.1. RHAGLEN GWAITH CYNNAL A CHADW HANFODOL</p> <p>1.2. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Adeiladau, Rheolwr y Rhaglenni Cyfalaf a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>1.3. <u>Adroddwyd</u>: Roedd y gwaith a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn mynd rhagddo o fewn y gyllideb ac ar amser.</p> <p>1.4. Nododd y Llywydd mai'r elfen arall, ar wahân oedd y rhaglen cyfalaf ataliol ac ôl-groniad o waith cynnal a chadw, a oedd yn sylweddol a byddai'n cymryd blynyddoedd lawer i fynd i'r afael â hyn. Roedd hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r cylch gwleidyddol ac roedd cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn hanfodol os am ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nododd y Bwrdd ei bod yn rhaid i'r Amgueddfa wneud penderfyniadau anodd o ran penderfynu pa weithgarwch a meysydd gwariant y gellid ymrwymo iddynt a'r hyn sy'n rhaid ei ohirio.</p> <p>1.5. Rhoddodd Nicky Guy y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r tebygolrwydd y bydd cronfeydd cyfalaf ar gael yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Roedd MAALD yn ymwybodol o'r camau a gymerwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Lloegr ar ran y sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithredu yno, a sut y gallai Llywodraeth Cymru ymateb i hyn. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod Cymru'n allanolyn o ran y llywodraeth yn cefnogi ei sefydliadau cenedlaethol. Mewn gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig, mae'r llywodraeth yn eiddgar i gefnogi projectau cyfalaf mawr yn gynnar sy'n rhoi hyder i gyllidwyr eraill gefnogi â'u cyllid cyfatebol eu hunain. Yng Nghymru, mae'r gwrthwyneb yn wir, gyda chefnogaeth cyllidwyr eraill yn aml yn ofyniad cyntaf cyn y gellir sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Nid oes gan Gymru'n gyffredinol nac Amgueddfa Cymru'n benodol gyllid ar gyfer uwchgyllunio neu astudiaethau dichonoldeb.</p> <p>1.6. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.</p>	
11	<p>1. MATERION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL</p> <p>1.1. SAFONAU'R GYMRAEG</p> <p>1.1.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu na chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y chwarter hwn. Enwebwyd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yng Ngwobrau Cardiff Life, yng nghategori Gwobr Iaith Gymraeg, ar gyfer dehongli a chyhoedduswyd dwyieithog ar gyfer arddangosfa Dippy ar Daith. Cafodd y staff a oedd yn rhan o'r project eu llongyfarch am eu gwaith ar gefnogi'r wobr a'r digwyddiad hwn.</p> <p>1.2. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GDPR</p> <p>1.2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a'r Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth.</p> <p>1.2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn nodi bod y gwaith o gydymffurfio'n gyffredinol yn mynd rhagddo'n dda, gyda mentrau diogelu gwybodaeth newydd yn cael eu rhoi ar waith.</p> <p>1.3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</p> <p>1.3.1. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu wedi nodi mai caffael oedd ffocws presennol y pedwar deg pedwar corff cyhoeddus. Diolchwyd i dîm Cyllid yr Amgueddfa am ei waith i gefnogi hyn, ac o ganlyniad ni fyddai'r Comisiynydd yn ymchwilio ymhellach i weithgarwch yr Amgueddfa yn y maes hwn. Yn hytrach, roeddent yn dymuno i'r Amgueddfa weithio â'r Comisiynydd i rannu arfer gorau.</p>	

	<p>1.3.2. Roedd y cyrff cyhoeddus hefyd yn gweithio ar y cyd i greu amcanion Cydraddoldeb a rennir a byddai cynllun gweithredu yn cael ei ryddhau ddiwedd mis Mawrth 2020.</p> <p>1.3.3. Nododd y Llywydd fod yr Amgueddfa'n esiampl o arfer gorau a'u bod yn rhannu'n arfer gorau hwnnw ag eraill. Roedd cyfarfodydd pellach â'r Prif Swyddog Gwyddonol yn cael eu hystyried er mwyn rhannu'r arfer gorau hwn, a sut y gallai hyn effeithio ar feysydd megis dysgu achrededig.</p>	
12	<p>Atodiad 1 Cofnodion yr amrywiol Bwyllgorau a Grwpiau. Y Pwyllgor Adolygu Perfformiad Nodwyd. Y Pwyllgor Archwilio Nodwyd. Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y gweithgor mewnol a oedd wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer UKRI wedi cael gwybod nad oedd UKRI yn barod i dderbyn cynigion ar hyn o bryd. Roeddent fodd bynnag yn annog yr Amgueddfa i barhau i weithio ar y cynnig ac roeddent yn awyddus i weld dull yr Amgueddfa o gyflwyno arfer sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol yng Nghymru.</p>	
13	<p>UFA Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi Diolchodd y Llywydd i Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu, a Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu am sicrhau bod digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yn gymaint o lwyddiant. Gwobr Amgueddfa Ewropeaidd y Flwyddyn Nododd y Bwrdd y byddai hwn yn ddigwyddiad hynod bwysig i Ymddiriedolwyr ei fynychu, pe bai'n cael ei gynnal. Nododd yr Ymddiriedolwyr efallai y bydd angen ei ohirio. Rhaglen Blaenoriaethau Diwylliannol – Strategaeth Ddiwylliannol i Gymru Nododd Nicky Guy fod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynrychioli'r Amgueddfa yn y fenter newydd hon; bu dau gyfarfod hyd yn hyn. <u>Penderfynwyd</u>: y byddai MAALD yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar waith y fenter hon dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Diolch Diolchodd y Llywydd i Claire Thomas-Hanna, Pennaeth Adnoddau Dynol, am ei holl waith yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diweddar. Ar ran y Bwrdd, roedd yn dymuno'n dda iddi yn ei gyrfa newydd. Roedd y Llywydd yn falch bod y Bwrdd wedi gallu cynnal y cyfarfod hwn yng ngogledd ddwyrain Cymru ac y byddai'n ceisio sicrhau bod rhaglen cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer 2021 a thu hwnt yn parhau i gynnwys rhanbarthau Cymru.</p>	MAALD
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf <u>Penderfynwyd</u>: Bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 25 Mehefin 2020 yn Nhyddewi, Sir Benfro.</p>	